



Efallai y byddwch yn poeni am eich biliau ynni yn ystod yr alldoriad coronafeirws. Dyma rywfaint o wybodaeth i'ch helpu.

1

Os oes gennych fesurydd nwy neu drydan rhagdalau ac rydych yn poeni am fedru talu am gredyd, siaradwch â'ch cyflenwr am ba opsiynau sydd ar gael. Gall y rhain gynnwys:

- enwebu rhywun i roi credyd ar eich mesurydd drosoch chi,
- trefnu i gredyd ychwanegol gael ei roi ar eich mesurydd neu,
- drefnu i gerdyn ychwanegu credyd sydd â chredyd wedi'i lwytho arno'n barod gael ei anfon atoch.

2

Os oes gennych fesurydd credyd safonol ac rydych yn poeni am fforddadwyedd neu mewn dyled ynni, cysylltwch â'ch cyflenwr. Gall yr opsiynau gynnwys:

- newid cynllun taliadau eich bil,
- cael egwyl daliadau,
- gostwng y swm rydych yn ei dalu neu ofyn am fwy o amser i dalu dyledion.

Mewn rhai achosion, mae'n bosib y byddant yn gallu eich helpu cael mynediad at gronfeydd caledi.

Beth bynnag fo'ch sefyllfa, ni fyddwch yn cael eich datgysylltu yn ystod yr argyfwng.

3

Mae'n bwysig tu hwnt bod eich cyflenwr yn gwybod os ydych mewn sefyllfa fregus er mwyn iddynt eich cynnwys ar eu **cofrestr gwasanaethau blaenoriaeth**. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd o oedran pensynadwy, â phlant dan 5 oed, anabledd neu gyflwr meddygol tymor hir. Mae bod ar y gofrestr yn golygu y cewch eich blaenoriaethu os bydd toriad yn y cyflenwad a byddwch yn derbyn gwasanaethau anariannol ychwanegol fel diogeledd ar ffurf cyfrinair neu wybodaeth mewn fformatau gwahanol.

Os bydd eich cyflenwr yn brysur gallech roi cynnig ar gofrestru gyda'ch Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO), y cwmni sy'n perchen ac yn gweithredu'r llinellau pŵer yn eich ardal. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich DNO ar eich bil trydan neu ewch i **[energynetworks.org/info/faqs/who-is-my-network-operator](https://www.energynetworks.org/info/faqs/who-is-my-network-operator)**. Cysylltwch â'ch DNO ac yna pan gewch eich ysgogi, allwch rhoi caniatâd i'ch data gael ei rannu â'ch cyflenwr nwy a thrydan.

Os bydd toriad yn eich cyflenwad, ffoniwch 105 am ddim.

4

Gwnewch yn siŵr eich bod yn **hawlio pob budd-dal** y mae gennych hawl iddo. Gall budd-daliadau gwahaniaethu dros Brydain. Am fwy o wybodaeth ewch i

- Cymru **llyw.cymru/coronafeirws**
- Lloegr **gov.uk/coronavirus**
- Yr Alban **gov.scot/collections/coronavirus-covid-19-guidance**

Gallwch hefyd ymweld â **citizensadvice.org.uk/cymraeg** neu cysylltwch â NEA am wiriad llawn o'ch hawl i fudd-daliadau trwy ein Gwasanaeth Cyngor Cartrefi Clyd a Chynnes hefyd – ffoniwch **0800 138 8218**.

5

Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r ynni sydd ei angen i gadw'n gynnes, yn ddiogel ac yn iach yn eich cartref. Gall gwneud newidiadau bach i'r ffordd rydych yn gwneud hyn gael effaith fawr ar filiau. I gael mwy o wybodaeth am sut i arbed ynni a dŵr, ewch i **simpleenergyadvice.org.uk**.

6

Gall newid cyflenwr ynni arbed cannoedd o bunnoedd oddi ar eich biliau ynni. Dewiswch wefan cymharu prisiau ar-lein sy'n dangos 'Côd hyder Ofgem'.

Noder gan fod cyflenwyr ynni yn adrodd am lefelau uchel o alwadau y gallai fod yn gyflymach i chi roi cynnig ar opsiynau ar-lein yn gyntaf os yw hyn yn bosib.



Mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Gartrefi Clyd a Chynnes wedi'i redeg gan yr elusen Gweithredu Ynni Cenedlaethol (NEA). Mae'n rhoi cyngor i bobl sy'n profi anhawster wrth dalu eu biliau ynni a dŵr, naill ai'n uniongyrchol neu drwy atgyfeiriadau gan eraill.

nea.org.uk/advice/wash-advice

Ffynonellau

Darparwyd y wybodaeth hon gan Weithredu Ynni Cenedlaethol (NEA), Ebrill 2020

